# Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Adolygiad Lleol o Drefniadau Rhyddhau Cleifion sy’n Oedolion o Wasanaethau Iechyd Meddwl Cleifion Mewnol

# Cylch Gorchwyl

## Pam ydym ni'n gwneud y gwaith hwn?

Diben Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw gwirio bod pobl yng Nghymru yn cael gofal iechyd o ansawdd da, a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol, yn unol â safonau cydnabyddedig.

Fel rhan o'n rhaglen o adolygiadau blynyddol, rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad lleol o ansawdd trefniadau rhyddhau cleifion sy'n oedolion (18-65) o wasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a ystyriwyd gan AGIC wedi nodi pryderon ynglŷn â gwasanaethau iechyd meddwl o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r ffynonellau gwybodaeth hyn yn cynnwys hysbysiadau digwyddiad difrifol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, pryderon allanol a dderbyniwyd gan AGIC yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl, ac arolygiadau iechyd meddwl blaenorol AGIC.

Mewn ymateb i'r materion a'r pryderon a amlinellwyd uchod, mae AGIC wedi penderfynu cynnal adolygiad lleol gyda'r nod o archwilio ansawdd y gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

## Cwmpas a methodoleg

Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ac yn asesu ansawdd a diogelwch y trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion sy'n oedolion o unedau iechyd meddwl cleifion mewnol yn ôl i'r gymuned.

Bydd ein hadolygiad yn ystyried a yw’r bwrdd iechyd yn dilyn y gofynion perthnasol sy’n ymwneud â rhyddhau, monitro a chynllunio wrth gefn cleifion, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth gysylltiedig. Yn ogystal, byddwn yn asesu’r cyfathrebu

rhwng gwasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol a gwasanaethau cymunedol mewn perthynas â rhyddhau, gan gynnwys ystyried unrhyw drefniadau goruchwylio a llywodraethu ansawdd sydd ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mewn perthynas ag ansawdd rhyddhau.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cyflwyno pwysau unigryw a digynsail ar y system gofal iechyd; o ystyried hyn, bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried sut mae'r gwasanaethau a ddarperir wedi cael eu haddasu er mwyn deall yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar y gwaith o fonitro a chefnogi cleifion sydd wedi'u rhyddhau i'r gymuned.

Y cwestiwn allweddol y bydd yr adolygiad hwn yn ceisio ei ateb yw: *A yw'r trefniadau presennol ar gyfer rhyddhau cleifion o wasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol i'r gymuned yn cefnogi darparu gofal diogel, effeithiol ac amserol?*

Wrth ateb y cwestiwn hwn, byddwn yn ystyried:

- Ansawdd y broses ryddhau, gan gynnwys cyfathrebu rhwng gwasanaethau cleifion mewnol a gwasanaethau cymunedol
- Digonolrwydd prosesau rheoli risg sy'n ymwneud â rhyddhau
- Sut mae cleifion yn cael eu cefnogi ar y pwynt rhyddhau, ac yn ystod y cyfnod ar ôl rhyddhau
- Trefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer monitro ansawdd ac effeithiolrwydd ei drefniadau rhyddhau

Er mwyn asesu'r meysydd a nodir uchod, bydd yr adolygiad yn adolygu cofnodion unigol cleifion iechyd meddwl ffurfiol ac anffurfiol sy'n oedolion sydd wedi'u rhyddhau o unedau iechyd meddwl cleifion mewnol a weithredir gan y bwrdd iechyd. Er mwyn galluogi AGIC i nodi themâu ledled y bwrdd iechyd neu, fel arall, faterion sy'n benodol i ardal, bydd y dewis o gleifion yn cynnwys unigolion sydd wedi'u rhyddhau i bob un o'r tair ardal awdurdod lleol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Er mwyn casglu tystiolaeth bellach fel rhan o'n hadolygiad, byddwn yn cynnal y gwaith maes ychwanegol a ganlyn:

- Cyfweliadau ag ystod o staff y bwrdd iechyd
- Hunanasesiad Bwrdd Iechyd
- Arolwg staff ar gyfer aelodau perthnasol o staff sy'n ymwneud â'r broses rhyddhau cleifion i sicrhau bod barn a phrofiadau'n cael eu casglu
- Byddwn yn ceisio cymharu barn a phrofiadau cleifion, gan gynnwys unigolion a ddewiswyd fel rhan o'n hastudiaeth achos, yn ogystal â pherthnasau/gofalwyr
- Adolygu dogfennau a dadansoddi ystod o wybodaeth a data corfforaethol a gweithredol

- Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau rhanddeiliaid eraill, lle bo angen, drwy gydol ein hadolygiad

## Amserlenni

Mae'r tabl isod yn cynnwys amcangyfrif o'r amserlenni ar gyfer yr adolygiad:

| Gweithgarwch | Amserlenni |
|---|---|
| Cynllunio gwaith maes ac adolygu dogfennau | Ionawr – Mawrth 2022 |
| Gwaith maes | Ebrill – Mai 2022 |
| Cyhoeddi'r adroddiad | Awst 2022 |

## Dadansoddiad ac adrodd

Drwy gydol cyfnod gwaith maes yr adolygiad, bydd y tîm adolygu'n rhoi adborth ar unwaith os bydd unrhyw faterion yn codi sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.

Daw'r adolygiad i ben gyda chyhoeddiad adroddiad a fydd yn nodi'r themâu allweddol a'r argymhellion a nodwyd o'n gwaith. Ni fydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gan staff yn ystod y gwaith maes yn cael ei phriodoli'n uniongyrchol iddynt yn yr adroddiad.

Bydd y bwrdd iechyd yn derbyn copi o'r adroddiad drafft er mwyn gwneud sylwadau ar ei gywirdeb ffeithiol a bydd yn derbyn copi o'r adroddiad terfynol cyn ei gyhoeddi.

Os nodir meysydd i'w gwella, bydd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella, sy'n manylu ar sut y bydd y gwasanaethau'n mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad. Yn dilyn adolygiad, bydd unrhyw gynllun gwella'n cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ochr yn ochr â'r adroddiad.

Os bydd angen, byddwn yn defnyddio ein proses gwasanaeth sy'n peri pryder i nodi ac uwchgyfeirio pryderon, i gefnogi unrhyw welliant neu ddysgu angenrheidiol ar gyfer y bwrdd iechyd.

## Data personol

Mae'r adolygiad hwn yn ffurfio rhan o waith AGIC i ddarparu sicrwydd annibynnol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan II, Pennod 4) yn rhoi'r pŵer i AGIC gynnal arolygon, adolygiadau ac ymchwiliadau yn y GIG neu mewn gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y GIG.
Mae'r cylch gorchwyl hwn yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer yr adolygiad.

Pan fyddwn yn prosesu data personol, mae hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Ceir rhagor o wybodaeth yn hysbysiad preifatrwydd AGIC ar ein gwefan yn https://agic.org.uk/polisi-preifatrwydd.